

Fforwm Mynediad Lleol Caerfyrddin

Dydd Iau 12 Mai 2016, 6pm

Canolfan Hamdden Caerfyrddin

Yn bresennol:

Aelodau:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd
Karen Burch (KB) – Is-gadeirydd
David Stacey (DS)
Glyn Evans (GE)
Richard Leggett (RL)
Edward Percy (EP)
Keith Morgan (KM)
Jillie Gardiner (JG)

Ysgrifennydd (dros dro)

Caroline Ferguson (CF)

Cynghorwyr/ Arsylywyr/Siaradwyr/Aelodau o'r Cyhoedd

Richard Jones (RJ) – Swyddog Datblygu Rheolwyr, CSC
Peter Stopp (PS)

Ymddiheuriadau (Aelodau)

Geoff Williams (GW)
Caroline Evans (CE)
Alan Warner (AW) – CSC aelod penodedig
Eric Davies (ED)
Glyn Jones (GJ)

Ymddiheuriadau (Cynghorwyr/Arsylywyr)

Marie George (MG) – CNC

*CSC yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn y cofnodion hyn

EITEM	GWEITHREDU
Eitemau 1 a 2 Croeso a'r Ysgrifennydd Dros Dro Croesawodd MH yr holl aelodau i'r cyfarfod ac yna cyflwynodd CF fel yr ysgrifennydd dros dro yn dilyn ymadawiad Jon Tudor. Aeth pawb ati i gyflwyno eu hunain i CF.	
Eitem 3 Ymddiheuriadau (wedi symud o eitem 4 ar yr agenda) Derbyniwyd a chofnodwyd yr ymddiheuriadau.	
Eitem 4 Cynllunio – Prosiectau Datblygu o Arwyddocâd Cenedlaethol (wedi symud o eitem 7 ar yr agenda) Cyflwynodd RJ daflenni i'r fforwm.	

Yn gyntaf, eglurwyd y tair gweithdrefn gynllunio gyfredol - Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio 2008, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.

Cafwyd eglurhad o'r prosesau cynllunio sy'n gysylltiedig â Phrosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (PSACau) a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) dan eu Deddfau perthnasol a chafwyd manylion am rôl yr Awdurdod Cynllunio Lleol ym mhob achos.

Gofynnodd KB a gyfeirir yn benodol at Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTCau) yn ystod pob proses.

Dywedodd RJ y byddai'n rhoi rhagor o wybodaeth i MH mewn perthynas â'r ymholiad hwn gan nad oedd yn sicr sut mae'r cyfeiriad at HTC wedi'i eirio.

Roedd y grŵp yn feirniadol o'r ymgynghoriad mewn perthynas â Fferm Wynt Brechfa.

Hysbysodd RJ y grŵp fod CSC wedi beirniadu proses ymgynghori'r datblygwr oherwydd y farn oedd nad oedd yr ymgynghoriad yn ddigon hyblyg. Doedd y dull ymgynghori ddim yn rhagweithiol.

Roedd EP yn cwestiynu'r broses apêl ar geisiadau DAC

Cadarnhaodd RJ nad oes proses apêl yn achos DAC

Gofynnodd EP pa bolisi a ddefnyddir er mwyn gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag Adroddiadau ar yr Effaith Leol.

Eglurodd RJ fod Asesiad Amgylcheddol yn cael ei ddefnyddio. Nid yw'r polisi'n rhy gaeth ond gellir dod i gasgliadau drwy ddehongli'r polisi.

Mynegodd JG bryder ynglŷn â rhai datblygwyr yn defnyddio eu hymgyngorwyr eu hunain er mwyn 'cynorthwyo' gyda chanlyniadau Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol.

Cadarnhaodd RJ fod CSC yn defnyddio ymgynghorwyr pan fo angen, er mwyn holi ymhellach ynglŷn â'r data a gyflwynwyd.

Tynnodd KM sylw at enghreifftiau o ddiffygion (hanesyddol) yn y broses o wneud penderfyniadau.

Dywedodd KB ei fod yn beth da pan fo Asesiadau Effaith yn cael eu herio.

Gofynnodd PS pa mor drylwyr oedd prosesau rhyddhau a monitro DNO ar ôl rhoi caniatâd?

Eglurodd RJ fod hyn yn anodd gan mai San Steffan sy'n gorfodi'r polisi.

Gofynnodd PS a fyddai yna asesiad dilynol?

Dywedodd RJ nad oedd y datblygiad wedi cychwyn hyd yma ond byddai ganddynt bwerau i orfodi yn erbyn datblygiadau heb eu hawdurdodi neu os yw'r gorchymyn caniatâd datblygu yn cael ei dorri.

Gofynnodd KB a oes gwersi'n cael eu dysgu pan fo ymateb negyddol i

ddatblygiad.

RJ Oedd, os yw digwyddiadau'n cael eu hadrodd ac os oes tystiolaeth.

Mynegodd JG bryder mewn perthynas ag ymgeiswyr yn llogi ymgynghorwyr sy'n dadlau nad yw digwyddiadau'n cael eu hachosi gan y datblygiad

Gofynnodd KM a oes lefel benodol ar gyfer llygredd sŵn (mewn cysylltiad â Glo Brig)

RJ Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio Canllawiau Cenedlaethol ond gwneir y penderfyniadau'n fewnol.

PS A yw Llywodraeth Cymru/Llywodraeth Ganolog yn cael eu cymell i gymryd sylw o gyngor CSC?

RJ Os yw'r sawl sy'n gwneud penderfyniad yn anwybyddu cyngor, mae'n rhaid rhoi cyfiawnhad dros hynny. Gallai anwybyddu cyngor heb gyfiawnhad fod yn niweidiol i'r broses a gallai fod sail i'w herio.

Parhaodd y cyflwyniad a chafwyd manylion am yr ystyriaeth a roddir i Fynediad Lleol, yn cynnwys hawliau tramwy cyhoeddus.

Yna, amlinellwyd statws a rôl y Fforwm Mynediad Lleol (FMLI) yn ystod y broses gynllunio a nodwyd y camau posibl y gellid ymgynghori â'r fforwm/ neu wahodd y fforwm i wneud cynrychiolaethau/neu alw'r fforwm i wrandawiadau neu ofyn cyngor y fforwm.

CF

Cyfeiriodd DS at ddiffyg Statws Ymgynghorai Statudol y FMLI

Nododd RJ fod gan yr adran gynllunio rôl allweddol mewn perthynas â thynnu sylw at geisiadau i'r FMLI

Tynnodd RL sylw at baragraff yng nghanllawiau FMLI, sy'n nodi bod yr Awdurdod Lleol dan sylw yn gorfod ymgynghori â'r FMLI

Gofynnodd RJ am gopi o ganllawiau'r FMLI, a bydd CF yn ei ddarparu.

CF

Gofynnodd RL a oedd unrhyw ymgynghori â'r FMLI ynglŷn â Cheisiadau Cynllunio

Holodd MH a oedd FMLI yn awyddus i gael ymgynghoriadau a gofynnodd i CF faint a dderbynnir ar gyfartaledd.

RJ - Mae FMLI yn gallu cael mynediad i'r rhestr wythnosol os oes ganddynt ddi-ddordeb yn y ceisiadau a gyflwynwyd.

Eglurodd CF fod yr Adran Gynllunio yn sgrinio'r ceisiadau ar y cychwyn gan ddefnyddio Hawl Dramwy Gyhoeddus ar system mapio ar-lein felly dim ond safleoedd gyda Hawliau Tramwy Cyhoeddus gerllaw sy'n cael eu hanfon ymlaen i Fynediad Cefn Gwlad. Bydd CF yn rhoi manylion am nifer y ceisiadau a dderbynnir ac a brosesir gan yr uned Mynediad Cefn Gwlad.

Yna rhoddodd JG y wybodaeth ddiweddaraf ar Fferm Wynt Coedwig Brechfa - gweler Materion yn Codi, Eitem 7.

<p><i>Ychwanegodd RJ os oedd gan y fforwm unrhyw bryderon penodol am y gwasanaeth Cynllunio yn gyffredinol neu am achosion unigol, yna mae croeso iddynt eu cyflwyno i'r adran Gynllunio yn ysgrifenedig.</i></p> <p>Gadawodd RJ ar y pwynt hwn, ar ôl trefnu hynny ymlaen law.</p>	
<p>Eitem 5 Aelodau Newydd/Ymddiswyddiadau (wedi symud o eitem 3 ar yr agenda)</p> <p>Mae Becky Chunising (BC) wedi ymddiswyddo am resymau personol.</p> <p>Awgrymodd GE y gallai Mr Gerald Brown, Llanpumsaint fod â diddordeb i ymuno â'r FMLI neu arsylwi ar gyfarfodydd yn rheolaidd. Bydd yn mynd ar drywydd y mater a gofyn am ffurflen gais ar gyfer ymaelodi os oes angen.</p>	GE
<p>Eitem 6 Ystyried/Cymeradwyo Cofnodion – Cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2016 (wedi symud o eitem 5 ar yr agenda)</p> <p>Cafodd y cofnodion eu gwirio a'u cymeradwyo ar yr amod bod y gwall teipio ar dudalen 5 yn cael ei newid o 'swyddog' i 'swyddfa'.</p> <p>Bydd CF yn eu cywiro ac yn eu hanfon i'w cyfieithu</p>	CF
<p>Eitem 7 Materion yn Codi o'r Cofnodion a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2015 (wedi symud o eitem 6 ar yr agenda)</p> <ul style="list-style-type: none"> <p>• Gorchymyn Amddiffyn Man Cyhoeddus (GAMC) (Rheoli Cŵn)</p> <p>Darparodd CF gopïau o daflenni'n cynnwys Cwestiynau Cyffredin ar GAMC a roddwyd i'r cyhoedd yn ystod cyfnod ymgynghori ar y Gorchymyn er mwyn rhoi rhagor o fanylion am y rhesymau o blaid y gorchymyn ac o ran gorfodi'r Gorchymyn.</p> <p>Cafwyd cais ffurfiol gan RL i CF wirio statws cyhoeddi'r ddogfen a ddarparwyd a oedd yn cynnwys Cwestiynau Cyffredin ar GAMC.</p> <p>Gofynnodd KM a oedd modd gorfodi GAMC ar flaendraethau, roedd CF yn credu bod modd gwneud hynny cyn belled â bod gan y cyhoedd fynediad cyfreithlon ond byddai'n holi Mike Roberts.</p> <p>• Fferm Wynt Coedwig Brechfa</p> <p>Nid yw JG wedi clywed unrhyw beth ynglŷn â'r cyfarfod â RWE NPower.</p> <p>Rhoddodd JG y wybodaeth ddiweddaraf am y Fferm Wynt:</p> <p><i>Ar hyn o bryd nid oes caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer llinellau pŵer uwchben. Dim ond 11 eiddo sydd wedi arwyddo</i></p> 	CF CF

<p><i>contract i ganiatáu llinellau pŵer dros eu tir a hynny mae'n debyg cyn iddynt gael gwybodaeth ddigonol. Ni ymgynghorwyd â 128 eiddo mewn perthynas â'r llinellau pŵer. Nod tîm cyfreithiol Western Power yw cael pwerau Prynu Gorfodol fel nad oes angen caniatâd y tîrfeiddiannwr. Mae'r Cynghorwr wedi cyfarfod ac awgrymu llinellau tanddaearol ond mae CSC wedi argymhell llinellau uwchben. Heb ganiatâd/cytundeb ar gyfer llinellau pŵer nid oes diben codi tyrbinau gwynt.</i></p> <p>Mae JG wedi cynhyrchu dogfen ar y Fferm Wynt, bydd MH yn ei dosbarthu i'r aelodau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Teithio Llesol (TLI) <p>Mae'n aneglur o hyd pa lwybrau syn cael eu cynnig ar gyfer TLI. Nid yw llwybr Llandeilo i Gaerfyrddin yn gymwys am TLI oherwydd maint y boblogaeth.</p> <p>Hysbysodd DS y grŵp fod Fforwm Beicio Caerfyrddin eisoes wedi cyfarfod parthed: TLI. Bydd yn dosbarthu unrhyw fater perthnasol sydd wedi codi yn y cyfarfodydd hynny.</p> <p>Gofynnodd MH i CF e-bostio Simon Charles i ofyn a ellir mapio'r ffyrdd arfaethedig.</p>	<p>MH</p> <p>DS</p> <p>CF</p>
<p>Eitem 8 Cyllid ar gyfer Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT)</p> <p>Cadarnhaodd CF fod y llythyr yn cynnig Cyllid CGHT wedi'i dderbyn ar 19 Ebrill 2016, yn cadarnhau dyraniad o £54,607 i CSC ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17. Cadarnhaodd CF hefyd fod y dyraniad yr un fath â'r llynedd.</p>	
<p>Eitem 9 Grant Rhaglen Waith ar gyfer Gwelliannau 2015/16 – Adroddiad a Chynlluniau yn y Dyfodol.</p> <p>Yn absenoldeb AW, rhoddodd CF gopiâu o daenlenni (a ddarparwyd gan uned Gweithrediadau Cefn Gwlad) yn dangos gwybodaeth am y rhaglen waith ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16.</p> <p>Holodd KB ynglŷn â'r gostyngiad yn nifer y llwybrau ceffylau y bu gwaith yn cael ei wneud arnynt yn ystod y cyfnod o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Hoffai Carmarthenshire Riders ymrwymo £3,000 yn rhagor ar gyfer 2016/17 ond hoffent wybod a fydd gwaith yn cael ei wneud ar nifer sylweddol o lwybrau.</p> <p>Awgrymodd EP y byddai dadansoddiad o gostau'n ddefnyddiol er mwyn nodi faint a gafodd ei wario ar y nifer llai o lwybrau y llynedd o gymharu â'r hyn a wariwyd ar fwy o lwybrau mewn blynyddoedd blaenorol - cost uwch/is fesul metr?</p> <p>Roedd KB yn teimlo y byddai ystadegau ar gilffyrdd a llwybrau ceffyl yn unig yn ddefnyddiol, ydi arian Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig (BOAT) a Llwybrau Beicio (LIB) dros y 3 blynedd ddiwethaf wedi gwella'r sefyllfa?</p> <p>Holodd JG sut gellid gweithredu rhagor o ddulliau cydweithio.</p>	<p>AW</p> <p>AW</p> <p>AW</p>

<p>Eglurodd KB wrth JG a'r grŵp sut mae Carmarthenshire Riders yn cydweithio â COps er mwyn rhoi gwelliannau i lwybrau ceffyl ar waith.</p> <p>Nid yw RL yn deall proses flaenoriaethu gwaith COps a gwnaeth gais ffurfiol am i AW fynychu'r cyfarfod nesaf er mwyn cael eglurhad.</p> <p>Nid oedd CF yn gallu ateb cwestiynau manwl am gyfrifoldebau COps.</p>	<p>AW</p>
<p>Eitem 10 Cytundeb Dirprwyo Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (PCBB)</p> <p>Adroddodd CF ei bod hi ac aelod o'r uned COps wedi cyfarfod â PCBB er mwyn trafod y broses o derfynu'r cytundeb dirprwyo cyfredol â'r Parc Cenedlaethol a'r cynnig i lunio cytundeb diwygiedig mewn perthynas yn benodol â chynnal a chadw'r rhwydwaith, gyda'r holl waith cyfreithiol yn cael ei drosglwyddo'n ôl i CSC.</p> <p>Nododd KB y byddai'n hoffi gweld y gwaith cynnal a chadw'n cael ei drosglwyddo'n ôl i CSC hefyd oherwydd y problemau y mae hi /Carms Riders wedi'u cael mewn rhai ardaloedd o'r Parc.</p> <p>Cyfeiriodd CF at ffigurau gwariant a gyflenwyd gan PCBB yn dangos bod gwariant gwirioneddol y flwyddyn yn erbyn y £2000.00 y mae CSC yn ei ddyrannu iddynt ar hyn o bryd fel a ganlyn...</p> <ul style="list-style-type: none"> • 2014/15 - £7272.35 llafur a deunyddiau'n unig • 2015/16 - £5625.82 llafur a deunyddiau'n unig <p>...pan fo gorbenion yn cael eu hychwanegu at y ffigurau hyn, maen nhw'n cyrraedd rhwng £16,000 a £22,000 y flwyddyn.</p> <p>Cadarnhaodd CF fod COps wedi nodi na allent baru'r gwariant hwn pe byddai'r gwaith cynnal a chadw'n cael ei drosglwyddo'n ôl.</p> <p>Roedd KB wedi'i synnu gan ffigurau PCBB</p> <p>Roedd DS yn gefnogol o waith y PCBB</p> <p>Bydd CF yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i FMLI am yr ail-negodi.</p> <p>Awgrymodd MH y dylai FMLI wneud sylwadau ar y cynigion.</p>	<p>CF</p> <p>MH/KB</p>
<p>Eitem 11 Tîm Mynediad Cefn Gwlad CSC</p> <p>Darparodd CF amlinelliad o strwythur cyfredol yr uned Mynediad Cefn Gwlad a'r hierarchaeth uniongyrchol. Dangoswyd y swyddi gwag ac eglurwyd y ffordd y cytunwyd i rannu'r meysydd a'r llwyth gwaith yn absenoldeb 3 aelod staff.</p> <p>Gofynnodd MH ac RL a allai COps ddarparu'r un wybodaeth ac a ellir darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am benodiadau Mynediad Cefn Gwlad hefyd.</p> <p>Eglurodd CF nad oedd COps yn gallu darparu strwythur penodol ar hyn o bryd gan fod strwythur newydd arfaethedig wedi'i gyflwyno'n gynharach y diwrnod hwnnw a oedd yn amodol ar ymgynghori, addasiadau posibl a chymeradwyaeth derfynol cyn y gellid ei gyflwyno i bartïon allanol.</p> <p>Awgrymodd CF y gallai fod ar gael erbyn cyfarfod nesaf FMLI.</p>	<p>AW/CF</p> <p>AW</p>

<p>Eitem 12 Map Diffiniol/Gorchmynion Cyfreithiol 2015/16</p> <p>Darparodd CF gyfres o Orchmynion a gwblhawyd yn 2015/16 a Gorchmynion sydd ar y gweill. Hysbyswyd y Grŵp o'r polisi blaenoriaethu a gytunwyd yn ddiweddar a chynigir y bydd yn cael ei roi ar waith yn ystod mis Mehefin 2016 mewn perthynas â phob Gorchmynion sydd ar y gweill.</p> <p>Holodd MH ynglŷn â'r cynnydd honedig yn y niferoedd o gymharu ag adroddiadau blaenorol.</p> <p>Eglurodd CF fod dogfennau blaenorol yn adlewyrchu ceisiadau ffurfiol yn unig o bosibl yn hytrach na'r holl Orchmynion sydd ar y gweill. Roedd dogfennau blaenorol yn cael eu llunio gan Jon Tudor ac nid oedd wedi'u gweld felly nid oedd yn sicr. Mae'r gwir niferoedd wedi cynyddu rhyw ychydig oherwydd llif eithaf parhaus o geisiadau yn ogystal â gostyngiad yn nifer yr aelodau staff sy'n eu prosesu.</p> <p>Cytunodd y Grŵp y byddai'n ddefnyddiol cael y wybodaeth ddiweddaraf am y Gorchmynion yn rheolaidd.</p> <p>Cytunodd CF i gyflwyno hynny yng nghyfarfod nesaf y FMLI.</p>	<p>CF</p>
<p>Eitem 13 Papur Gwyrd ar Wella Cyfleoedd i Gael Mynediad i'r Awyr Agored - Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd gan Lywodraeth Cymru</p> <p>Derbyniodd MH ymateb i'w gais i Lywodraeth Cymru am ragor o ystadegau a dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrd. Dim ond 600 o ymatebion a gafodd eu meintoli felly ni chafwyd eglurhad o'r sefyllfa hyd yn hyn - ni chafwyd eglurhad ar 6000 a mwy o ymatebion.</p> <p>Roedd DS yn credu bod aelodau CTC wedi defnyddio templed safonol.</p> <p>Roedd MH yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol gweld y templed</p> <p>Awgrymodd KB y dylid gofyn i CTC yn uniongyrchol am dempled o'u hymateb.</p>	<p>MH/KB</p>
<p>Eitem 14 Adroddiad Blynyddol FMLI</p> <p>Mae CF yn dal i ddisgwyl cyfieithiad o'r adroddiad cyn y gellir ai gyhoeddi ar y wefan, rydym wedi holi'r uned gyfieithu.</p>	<p>CF</p>
<p>Eitem 15 Cynnig Taith Gerdded Calon Cymru</p> <p>Darparodd MH amlinelliad byr o'r cynnig</p> <p>Dosbarthodd CF friff y Daith Gerdded a ddarparwyd gan ymgynghorwyr ar gyfer y rhai a oedd wedi'i weld. Bydd CF ac aelod o COps yn cyfarfod yr ymgynghorwyr ar 19/05/16 felly byddwn yn gallu rhoi mwy o wybodaeth yn ystod cyfarfod nesaf FMLI.</p>	<p>CF</p>
<p>Eitem 16 Unrhyw Fater Arall (wedi symud o eitem 17 ar yr agenda)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hoffai DS gael copi o'r Llawlyfr FMLI • Gofynnodd MH i CF cyn y cyfarfod ynglŷn â nifer y pontydd y mae Sir 	

Gaerfyrddin wedi'u cofnodi ar gyfer eu hadnewyddu/atgyweirio - cododd yr ymholiad wedi i bont droed yng Nghynghordy gael ei chau.

Lluniodd CF adroddiad ar bontydd yn dangos nifer y strwythurau pont a gofnodwyd yn y Sir (528) a'r nifer a gofnodwyd sydd angen eu hadnewyddu/atgyweirio (129). Dywedodd CF mai er mwyn rhoi syniad yn unig oedd diben y ffigurau hyn, gan nad oedd pob strwythur ar y rhwydwaith wedi'u cofnodi ac nid oedd pob strwythur a oedd wedi'i golli/difrodi wedi'u cofnodi.

I bwysleisio'r pwynt – ffigurau CSC vs PCBB ar bontydd; mae gan CSC 15 o bontydd wedi'u cofnodi yn y Parc Cenedlaethol, mae gan PCBB 44 (ac yn dal i gyfri).

Soniodd KB am gyllideb pontydd 2016/17 COps.

Cadarnhaodd CF fod cyllideb ychwanegol ar gyfer pontydd eleni, ond tynnodd sylw'r grŵp at y gofyniad newydd i bob pont dros 3m o led gael ei harchwilio a'i chostio gan beirianwyr pont arbenigol. Canlyniad hyn yw cynnydd sylweddol yng nghostau gwaith ar strwythurau pontydd mawr y rhwydwaith. Mae hyn yn golygu y bydd llai o bontydd yn cael eu cwblhau gyda'r arian ychwanegol nag a ragwelwyd yn wreiddiol.

- Fe wnaeth RL e-bostio Jon Tudor ar ôl cyfarfod mis Chwefror o'r Fforwm Mynediad Lleol yn gofyn pam nad yw i-local yn derfynol. Roedd Jon Tudor wedi ateb RL trwy e-bost.

Cyflwynodd RL amlinelliad o ateb Jon – bod y gwaith mapio digidol yn deillio o system fapio fewnol CSC (CAMS). Y Map a'r Datganiad diffiniol yw'r unig gofnod cyfreithiol diffiniol cydnabyddedig.

Ychwanegodd CF fod CAMS yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn unol â'r map a'r datganiad diffiniol, ond bod diweddarau i-local o CAMS yn cael ei wneud â llaw ac yn cymryd amser. Mae'n anorffod felly nad oes modd diweddarau'r fersiwn i-local mor hawdd, ac felly does dim modd ei ystyried fel un diffiniol.

- Hefyd, e-bostiodd RL i awgrymu y gallai cyfarfod mis Mai gynnwys diweddariad am ffigur y materion heb eu datrys a ddarparodd COps yng nghyfarfod Chwefror, ac efallai darparu cymariaethau â ffigurau'r blynyddoedd blaenorol.

Cyflwynodd CF adroddiad diweddaraf am faterion heb eu datrys, wedi'i rhannu rhwng 'Cynnal a Chadw' a 'Chyfreithiol'. Roedd yr adroddiad yn cynnwys materion/roblemau newydd a adroddwyd yn ogystal â rhai wedi'u datrys rhwng 12/02/16 a 12/05/16.

Bu'r Grŵp yn trafod cynnwys yr adroddiad a chodi cwestiynau am dermau CAMS – rhoddodd CF esboniad fel bo'r angen.

Holodd RL am ystyr 'CAMS' dan faterion cyfreithiol – CF i wirio

CF

Awgrymodd RL y byddai data parhaus yn fwy defnyddiol fesul 6 mis a/neu flwyddyn. Ychwanegodd y byddai data sy'n mynd yn ôl 3 blynedd yn ddefnyddiol er mwyn gwerthuso'r cynnydd a wnaed gan yr uned, a

<p>gallai helpu i gefnogi unrhyw gais am gynnydd yn y gyllideb.</p> <p>Cytunodd CF y gellid paratoi adroddiadau blynyddol ac y gellid darparu diweddariad 6 mis yn y cyfarfod nesaf, ond y byddai data 3 blynedd yn anghywir gan nad oedd CAMS yn cael ei ddefnyddio mewn modd mor gynhwysfawr yn y blynyddoedd blaenorol – byddai'r data sydd ar gael yn ddiffygiol.</p> <p>Awgrymodd MH y byddai'r data parhaus yn ddefnyddiol i'w gynnwys yn adroddiad blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol; cytunodd y grŵp ar hyn.</p>	<p>CF</p> <p>MH</p>
<p>Eitem 17 Eitemau ar gyfer agenda'r dyfodol (symudwyd o eitem 16 ar yr agenda)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Strwythurau staff – hoffai RL gael y wybodaeth ddiweddaraf am benodiadau i'r uned Mynediad Cefn Gwlad a chipolwg ar strwythur COps. • Gwaith cefn gwlad – AW i gyflwyno adroddiad llawn am waith a chyllid, a darparu adroddiad interim yn y cyfamser. • Papur Gwyrdd: Gwella cyfleoedd i gael mynediad i'r awyr agored – diweddariad a thrafodaeth. • Ymgyrch diogelwch y ffyrdd – menter KB wedi'i chefnogi gan BHS • Cytundeb dirprwyaeth PCBB - bydd angen diweddariadau CF • Llwybr Cambria – awgrymodd GW ffyrdd o wella arwyddion Llwybr Cambria, gan holi beth oedd y ffordd orau o wneud hynny • Defnyddio gwirfoddolwyr/grwpiau gwaith – GW, a fydd CSC yn eu defnyddio? • Fferm wynt Brechfa – diweddariad a thrafodaeth chwarterol • Llwybr cerdded lein Calon Cymru – diweddariad a thrafodaeth. • Pontydd – awgrymodd KB fod angen trafod defnyddio gwirfoddolwyr i gynnal arolwg o bontydd y rhwydwaith. • Cyfarfodydd Fforwm Mynediad Lleol 2017 – trefnu dyddiadau/lleoliadau 	
<p>Eitem 18 Dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol</p> <p>Mae dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf wedi'u cadarnhau a'u cynnwys ar wefan y Cyngor:</p> <p>http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/hamdden-a-gweithgareddau/hawliau-tramwy-cyhoeddus/fforwm-mynediad-lleol/#.WJ2Uc3r2ncs</p> <p>Nos Iau 22 Medi - 6pm</p> <p>Ystafell Weithgareddau Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Llawr 1, Ffordd Llansteffan, Caerfyrddin SA31 3NQ</p>	

Nos Iau 8 Rhagfyr - 6pm	Ystafell Gynadledda, Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Llawr 1, Ffordd Llansteffan, Caerfyrddin SA31 3NQ	
-------------------------	---	--